



Eich cyf:  
Ein cyf:

5 Hydref 2018

Annwyl James Harris

## **CYNLLUNIAU STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG DIWYGIEDIG (CSGA) 2017-20**

Diolch i chi am ailgyflwyno eich Cynllun diwygiedig.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried ac asesu'r Cynllun ac yn barod i'w gymeradwyo heb addasiadau pellach.

Rydych wedi nodi eich ymrwymiad i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg drwy sefydlu ysgol gynradd Gymraeg newydd. Rydym yn falch ein bod wedi gallu cynnig cefnogaeth trwy grant cyfalaf Llywodraeth Cymru i'ch galluogi chi i wireddu'r ymrwymiad hwn yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Yn unol â'r datganiad am gefnogaeth ariannol i Band B o'r Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif, byddwn yn anelu i sicrhau ffit strategol rhwng y ceisiadau cyfalaf a'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Dylai'r awdurdod yn awr gyhoeddi a gweithredu'r Cynllun yn unol â gofynion *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013*. Yn y cyd-destun hwn, golyga cyhoeddi:

- ei roi ar wefan yr awdurdod lleol mewn lle amlwg er mwyn hwyluso'r broses i'r cyhoedd, a
- sicrhau bod copïau o'r cynllun ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt yn –
  - swyddfeydd yr awdurdod lleol, a
  - unrhyw le arall y mae'n ei ystyried yn briodol.

Fe fyddwn yn awr yn eich annog i ddilyn yr arfer dda sydd wedi cael ei ddatblygu eisoes gan sawl awdurdod, sef llunio cynllun gweithredol yn seiliedig ar dargedau eich Cynllun. Mae gan aelodau'r Fforymau Addysg rôl flaenllaw yn eich cynorthwyo i lunio, gweithredu a monitro'r cynllun gweithredu ac mae'n ffordd o sicrhau fod y Cynllun yn cael ei gyflawni mewn partneriaeth yn lleol. Os hoffech dempled neu esiampl o gynllun gweithredu yna mae croeso i chi gysylltu â swyddogion Uned y Gymraeg mewn Addysg.

Edrychwn ymlaen at barhau i gyd-weithio â chi a monitro cynnydd dros oes y cynllun.

Yn ddiffuant

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Bethan Webb'.

**Bethan Webb**  
**Pennaeth Is-Adran y Gymraeg**